



ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

Canllawiau ar gyfer Ymgeiswyr

1) Cefndir

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ffin drawiadol yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys rhai ardaloedd o gefn gwlad harddaf y DU. Bryniau Clwyd yw'r gadwyn ddigamsyniol o gopaon llawn grug porffor, gyda rhai o'r bryngaerau mwyaf trawiadol ym Mhrydain. Tu hwnt i Fwlch yr Oernant, dros fynydd Llantysilio mae'r hyfryd Ddyffryn Dyfrdwy gyda thref farchnad hanesyddol Llangollen sy'n gyfoeth o dreftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol. Mae Llwybr Clawdd Offa yn teithio drwy'r ardal warchodaeth arbennig hon, un o'r ardaloedd sydd wedi'i darganfod leiaf ond un o dirweddau mwyaf croesawgar a hawdd i'w archwilio ym Mhrydain.

Mae'r AHNE yn 390 cilometr sgwâr; y pwynt uchaf yw Moel Ferna sy'n 630 metr a'r dref fwyaf yw Llangollen gyda phoblogaeth o 5,000. Mae 8 bryngaer, 3 castell, 2 orsaf drenau a Safle Treftadaeth y Byd!

Mae'r AHNE wedi'i lleoli o fewn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Sir Wrecsam (gweler y map ynghlwm).

Dynodwyd yr AHNE yn 1985. Yn 2011, dynodwyd rhannau deheuol Bryniau Clwyd, ynghyd â Dyffryn Llangollen a Dyffryn Dyfrdwy fel AHNE.

Mae Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi'u dynodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) i gydnabod ansawdd rhagorol y dirwedd a'r bwriad o warchod a gwella'r harddwch naturiol.

Rydym yn awr yn ceisio penodi aelodau i Bartneriaeth AHNE. Ceisir diddordeb gan unigolion sydd â gwybodaeth arbenigol am yr AHNE allai gynnwys tirwedd, treftadaeth naturiol a diwylliannol, twristiaeth neu fusnesau lleol. Os ydych yn byw, yn gweithio neu'n ymweld â'r AHNE yn aml ac yn pryderu am ei dyfodol ac yn gallu cyfrannu ambell ddiwrnod y flwyddyn i fynychu cyfarfodydd, digwyddiadau ac ymweliadau safle yna rydym eisiau clywed gennych chi.

Mae'r AHNE yn cael ei rheoli gan Gydbwyllgor ar ran y 3 Awdurdod Lleol (Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae'r Cydbwyllgor yn gyfrifol am benodi aelodau nad ydynt yn rhan o'r Awdurdod Lleol i'r Bartneriaeth.

2) Aelodaeth Partneriaeth AHNE

Bydd hyd at 25 aelod parhaol o'r Bartneriaeth. Bydd y rhain yn cynnwys 9 aelod o awdurdodau lleol (3 Sir Ddinbych, 3 Sir y Fflint a 3 Wrecsam) ac aelodau eraill yn cynrychioli'r meysydd diddordeb canlynol:-



Blwch 1 : Rhestr Aelodaeth gyffredinol – penodiad am 4 blynedd	
	<ul style="list-style-type: none"> • 9 Aelod awdurdod lleol (wedi'u henwebu gan yr awdurdodau lleol)
Cynrychiolwyr AHNE eang (Penodi gan y Cydbwyllgor)	<ul style="list-style-type: none"> • 3 diddordeb rheoli tir • 2 ddiddordeb cymuned wledig • 2 ddiddordeb cymuned ddinesig • 1 diddordeb busnes
Cynrychiolwyr blaenoriaethau'r Cynllun Rheoli (Penodi gan y Cydbwyllgor)	<ul style="list-style-type: none"> • 1 Tirwedd • 1 Naturiol • 1 Hanesyddol • 1 Mynediad a Hamdden • 1 Amgylchedd Adeiledig
Cynrychiolwyr Diddordeb Arbennig (Wedi'u dewis gan etholiad neu gynhadledd flynyddol)	<ul style="list-style-type: none"> • 3 unigolyn neu sefydliad
Wrth wneud y penodiadau, bydd yr awdurdodau lleol yn sicrhau bod yna gynrychiolaeth o Safle Treftadaeth y Byd. Dim mwy na 9 mlynedd o wasanaeth olynol.	

Bydd Cadeirydd a 2 Is-Gadeirydd y Bartneriaeth yn cael eu penodi gan y Bartneriaeth lawn ac yn cael eu dewis o aelodau'r awdurdodau lleol, gan gyfnwid rhwng Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint bob dwy flynedd yn amodol ar etholiadau'r awdurdodau lleol ac amgylchiadau eithriadol.

3) Rolau Partneriaeth AHNE

Bydd Partneriaeth AHNE yn cyflawni ei rôl trwy uno diddordebau allweddol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i ystyried a chynghori am gadwraeth a datblygiad harddwch naturiol a rhinweddau nodweddiadol lleol y tirlun, gan gynnwys ei ffurfiant ffisegol, ecolegol a diwylliannol ac yn bennaf:

Cylch Gorchwyl Partneriaeth AHNE
<p>Uno diddordebau allweddol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i ystyried a chynghori am gadwraeth a datblygiad harddwch naturiol a rhinweddau nodweddiadol lleol y tirlun, gan gynnwys ei ffurfiant ffisegol, ecolegol a diwylliannol ac yn bennaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a phwrpas yr AHNE • Cyfrannu a chynorthwyo i weithredu Cynllun Rheoli'r AHNE • Annog cymunedau lleol a'r holl gyrff cyhoeddus ac asiantaethau i gadw a datblygu harddwch naturiol yr AHNE a'i osodiad. • Hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd a chynaliadwy'r ardal. • Darparu fforwm i drafod materion sy'n effeithio ar yr AHNE • Cynghori awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill ar effaith eu gweithgareddau ar yr AHNE ac ar baratoi cynlluniau ar gyfer yr AHNE neu ran ohoni, i sicrhau fod y polisïau a'r arferion yn cyfateb â chynllun rheoli'r AHNE. • Cynghori'r Cydbwyllgor ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau y cymerir gwarchodaeth yr AHNE i ystyriaeth a bod cysondeb o ran dull ar gyfer yr ardal gyfan. • Cynghori'r Cydbwyllgor ynglŷn ag effaith unrhyw gynigion datblygu, o fewn neu wrth ymyl yr AHNE, sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar rinwedd a harddwch naturiol yr ardal.



- Llunio argymhellion ar gyfer y Cydbwyllgor ynglŷn â derbynwyr priodol arian Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llywodraeth Cymru.
- Meithrin cysylltiadau gyda thirweddau eraill a ddiogelir.

4) **Rolau a chyfrifoldebau Aelodau'r Bartneriaeth**

Dylai'r aelodau gyfrannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth i fodloni swyddogaethau dyraniad AHNE a Chylch Gorchwyl y Bartneriaeth. Dylid ymddwyn heb ragfarn wleidyddol na chyswllt personol er mwyn cyflawni'r dibenion hyn. Disgwylir i aelodau gydymffurfio â Chytundeb Aelodau sy'n gosod y sylfaen y mae disgwyl iddynt gyfrannu at waith y Bartneriaeth.

Trwy ymuno â Phartneriaeth AHNE disgwylir i chi gydymffurfio â'r cytundeb canlynol:-

CYTUNDEB AHNE BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

- hyrwyddo cadwraeth a datblygiad harddwch naturiol Bryniau Clwyd;
- cefnogi gweledigaeth y Bartneriaeth ar gyfer Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fel y'u gosodwyd yng Nghynllun Rheoli'r AHNE yn allanol ac o fewn fy sefydliad;
- cyfrannu gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad perthnasol i waith y Bartneriaeth;
- hyrwyddo a chefnogi gwaith y Bartneriaeth drwy gyflawni'r cylch gorchwyl fel y gosodwyd hwynt yn y Cyfansoddiad a'r Cylch Gorchwyl;
- Mynychu cyfarfodydd Partneriaeth pan fod modd, a phan na fydd modd eu mynychu'n rheolaidd bellach, ymddiswyddo a cheisio cynrychiolydd arall o fy sefydliad i fod yn rhan o'r Bartneriaeth;
- ymddwyn heb ragfarn wleidyddol na chysylltiad personol wrth gyflawni fy nyletswyddau yn y Bartneriaeth.

5) **Cyfarfodydd**

Bydd y Bartneriaeth yn cyfarfod tua 4 gwaith y flwyddyn, ond bydd cyfarfodydd Is-Bwyllgor yn cael eu trefnu fel bo'n briodol hefyd.

6) **Aelodau**

Mae'r aelodau'n cael eu recriwtio am dymor o bedair blynedd. Gall aelodau sydd methu mynychu cyfarfod enwebu eilydd i fynychu ar eu rhan.

7) **Meini Prawf Dethol**

Mae'n ddymunol fod gan Aelod o Bartneriaeth yr AHNE:



- Dystiolaeth o brofiad eang o faterion mynediad yn yr ardal;
- profiad o weithio neu gyfrannu at fforymau, byrddau neu weithgorau prosiect tebyg yn y gorffennol;
- dealltwriaeth o ddeddfwriaeth berthnasol a gweithdrefnau llywodraeth leol a llywodraeth ganolog.
- Yn gallu rhwydweithio â nifer o sefydliadau ac unigolion, gyda'r nod o allu cynghori ar eu safbwyntiau a rhannu gwaith y Fforymau Mynediad Lleol;

Bydd Cydbwyllgor yr AHNE, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yn sicrhau cytbwysedd teg rhwng unigolion o wahanol ryw, hil, oedran ac anableddau. Ceisiwn gytbwysedd rhesymol rhwng diddordebau'r grwpiau defnyddwyr a'r perchnogion a phreswylwyr y tir lle bo hawliau mynediad.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Gyd-Bwyllgor AHNE benodi aelodaeth i Bartneriaeth AHNE, sydd â chyfoeth o wybodaeth a diddordebau, ac yn cynnwys aelodau sydd oll yn ymroddedig i reoli a hyrwyddo'r AHNE.

8) Beth nesaf?

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried ar gyfer yr aelodaeth, cwblhewch y ffurflen gais ynghlwm. Bydd y ceisiadau'n cael eu hasesu a'u cydnabod. Os ydych yn diwallu'r meini prawf dethol, efallai y cewch wahoddiad i fynychu cyfweiliad. Nodwch eich argaeledd i fynychu cyfweiliad yn y gofod a ddarperir ar y ffurflen gais.



Graddfa/Scale: 1: 150000
Dyddiad/Date: 27/03/2012

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy AHNE Clwydian Range and Dee Valley AONB



© Hawlfraint y Goron, Cedwir pob hawl, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 100018813 (2012)
© Crown copyright. All rights reserved. Countryside Council for Wales, 100018813 (2012)
© Hawlfraint y Goron a Hawliau cronfa ddiada 2012 Arlohw Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023408